Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU

**Teitl:** **Gwaith y Tasglu Caffael Busnes ac ymateb i'r adroddiad "Ymchwil ar Rwystrau sy'n atal Cyfleoedd Caffael"**
**Dyddiad:** **8 Rhagfyr 2009**

**Gan:** **Andrew Davies, y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus**

Yn 2004, creais y Tasglu Caffael Busnes. Mae hon yn enghraifft dda o bartneriaeth gymdeithasol sy'n dod â'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ynghyd, er lles pobl Cymru. Daeth yr aelodaeth o CBI Cymru; y Ffederasiwn Busnesau Bach; TUC Cymru, CLILC, y Trydydd Sector; Academia a rhannau eraill o'r Sector Cyhoeddus. Nod y Tasglu yw sicrhau cymaint o elw ag y bo modd o'r 'Bunt Gymreig' trwy'r £4.3 biliwn y flwyddyn a werir ar gaffael gan y Sector Cyhoeddus yng Nghymru.

Un o ganlyniadau pwysicaf gwaith y Tasglu oedd y ddogfen bolisi "*Agor Drysau - y Siarter ar gyfer Caffael sy'n Gyfeillgar i Fusnesau Bach a Chanolig*", a gyhoeddais yn 2006. Nod *Agor Drysau* yw ceisio sicrhau manteision economaidd a chymdeithasol trwy annog rhagor o fusnesau bach a chanolig Cymru i gyflenwi Sector Cyhoeddus Cymru. Busnesau Bach a Chanolig yw dros 90% o'n busnesau ac felly mae hyrwyddo'u twf yn bwysig i ddyfodol economaidd Cymru; gallai pob 1% ychwanegol a werir trwy gwmnïau Cymru esgor ar 2,000 o swyddi ychwanegol. Mae pob un o sefydliadau pwysig y sector cyhoeddus wedi rhoi'u sêl bendith i'r egwyddorion hyn.

Yn 2007 roedd cytundeb *Cymru'n Un* yn cynnwys yr ymrwymiad canlynol: "drwy weithio o fewn fframwaith cyfreithiol Ewrop, byddwn yn ei gwneud ynn haws i gwmnïau bach lleol ym mhob rhan o Gymru ennill contractau'r llywodraeth." Roedd yr ymrwymiad hwn yn ategu gwaith y Tasglu.

Mae ymchwil wedi'i chynnal i nodi lle'r ydym arni o ran sicrhau bod cyfleoedd ar gael i gwmnïau yng Nghymru. Yn ôl yr ymchwil hon a gomisiynwyd gan y Tasglu, roedd cwmnïau yng Nghymru, yn 2004, yn ennill rhyw 35% o fusnes y sector cyhoeddus. Yn ôl yr ymchwil sydd newydd ei chynnal, ar sail cyfrifon 2007/08, mae cwmnïau yng Nghymru bellach yn ennill dros 50% o fusnes y sector cyhoeddus a 56% o fusnes Llywodraeth Leol. Mae hwn yn hwb sylweddol i economi Cymru.

Er gwaetha'r cynnydd sylweddol a gwerthfawr hwn, mae tystiolaeth i awgrymu bod cwmnïau, yn enwedig cwmnïau llai, yn cael peth anhawster i gynnig am fusnes sector cyhoeddus Cymru. O'r herwydd, es ati i gomisiynu prosiect ymchwil er mwyn ymchwilio i'r rhwystrau y mae busnesau bach a chanolig yn eu hwynebu o hyd ac er mwyn gwneud argymhellion.

Prifysgol Morgannwg gynhaliodd yr ymchwil ar y cyd â Phrifysgol Bangor a Choleg y Drindod, Caerfyrddin. Cyhoeddwyd yr adroddiad yng ngwanwyn eleni o dan y teitl, "Ymchwil ar Rwystrau sy'n atal Cyfleoedd Caffael".

Rhoddais groeso i'r adroddiad a derbyn ei argymhellion yn gyffredinol. Mae chwech o'r argymhellion hyn eisoes wedi'u cynnwys yn y *Siarter Agor Drysau*, yn benodol: ei gwneud yn haws cynnig am gontractau; hysbysebu pob contract gwerth dros £25,000; a safoni'r prosesau ar gyfer dewis a'r prosesau cyd-gymhwyso; ac ymgorffori gweithdrefnau cwyno ar gyfer caffael.

Rwyf wedi gofyn i swyddogion *Gwerth Cymru* lunio trywydd ar gyfer bwrw ymlaen â'r argymhellion, gan ymgynghori â phartneriaid yn y sector cyhoeddus ac ar yr ochr gyflenwi. Mae'r gwaith hwn wedi dechrau ac mae'n cynnwys cyfres o weithdai, cyfarfodydd a grwpiau ffocws, a'r nod yw safoni a symleiddio'r broses ar gyfer cwmnïau sy'n cynnig am gontractau yng Nghymru.

Un o'r meysydd allweddol y mae'r Tasglu yn canolbwyntio arno yw ymwneud â chyflenwyr lleol ym mhob sector. Er enghraifft: mae'r cwmni dŵr Prince';s Gate yn Sir Benfro bellach yn cyflenwi dŵr potel a chyfarpar oeri dŵr i brifysgolion ar hyd a lled Cymru; ac mae Prifysgol Aberystwyth, o dan ei hadain fasnachu, yn cyflenwi cig o Gymru i'w chwaer brifysgolion, ac mae hefyd wedi cipio rhai o wobrau Cymru y Gwir Flas yn ddiweddar.

Mae defnyddio cymalau ynghylch manteision cymdeithasol neu gymunedol mewn Contractau caffael, er enghraifft er mwyn cael pobl sy'n economaidd anweithgar yn ôl i waith, yn dod yn fwyfwy cyffredin mewn contractau adeiladu yn y sector cyhoeddus.

Mae rhaglen gynyddol o brosiectau yn defnyddio cymalau cymdeithasol; un enghraifft ar hyn o bryd yw Ffordd Osgoi Church Village, lle mae 60 o bobl economaidd anweithgar gan gynnwys troseddwyr cyson iawn, wedi'u recriwtio a'u hyfforddi i o leiaf NVQ lefel 2; mae busnes arlwyo wedi'i sefydlu; ac mae 80% o'r is-gontractau wedi'u hennill gan gyflenwyr lleol.

Mae'r Tasglu hefyd wedi gweithio i ddiogelu cyflogaeth i grwpiau lleiafrifol a difreintiedig gan roi sylw arbennig i'r manteision o weithio gyda mudiadau yn y Trydydd sector a chan fanteisio ar ddarpariaethau'r UE sy'n caniatáu neilltuo contractau ar gyfer Busnesau a Gynorthwyir (ee Remploy) sydd â dros 50% o'u gweithwyr yn anabl.

Yr her yr hoffwn ei rhoi i sector cyhoeddus Cymru, ynghyd ag i'n cyflenwyr, trwy waith y Tasglu Caffael a thrwy'r trywydd a amlinellir yn "Rhwystrau", yw iddo fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael er mwyn i ni barhau i adeiladu sector busnes cryfach yng Nghymru.

Rydym yn ymlwybro'n raddol at newid o ran caffael yn y sector cyhoeddus er mwyn cynyddu'r cyfleoedd busnes i'r eithaf a chryfhau economi Cymru. Mae'r Tasglu Caffael wedi helpu i wneud gwahaniaeth go iawn er 2004 gan ddangos gwerth datblygu'r dull o weithredu drwy bartneriaeth gymdeithasol.